

Rhaglen Cefnogi Pobl Llywodraeth Cymru

Mai 2018



Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
www.cynulliad.cymru/SeneddArchwilio

Gellir cael rhagor o gopiâu o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA**

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **SeneddArchwilio@assembly.wales**
Twitter: **[@SeneddArchwilio](https://twitter.com/SeneddArchwilio)**

© **Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2018**

Ceir atgynhychu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhychu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Rhaglen Cefnogi Pobl Llywodraeth Cymru

Mail 2018



Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor hwn ar 22 Mehefin 2016 i gyflawni swyddogaethau'r pwyllgor cyfrifol fel y'u nodir yn Rheolau Sefydlog 18.2 and 18.3 ac ystyried unrhyw fater arall yn ymwneud â pha mor ddarbodus, effeithlon ac effeithiol y cafodd adnoddau eu defnyddio wrth gyflawni swyddogaethau cyhoeddus yng Nghymru.

Cadeirydd y Pwyllgor:



Nick Ramsay AC
Ceidwadwyr Cymreig
Mynwy

Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



Mohammad Asghar AC
Ceidwadwyr Cymreig
Dwyrain De Cymru



Neil Hamilton AC
UKIP Cymru
Canolbarth a Gorllewin Cymru



Vikki Howells AC
Llafur Cymru
Cwm Cynon



Rhianon Passmore AC
Llafur Cymru
Islwyn



Adam Price AC
Plaid Cymru
Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr



Lee Waters AC
Llafur Cymru
Llanelli

Cynnwys

Rhagair y Cadeirydd.....	5
Casgliadau ac argymhellion	7
Rhagarweiniad.....	12
Amcanion y Rhaglen Cefnogi Pobl.....	14
Ein barn ni	16
Cynigion ar gyfer un Grant Integredig	18
Cyfathrebu â sefydliadau rhanddeiliaid allweddol.....	18
Cwmpas posibl y Grant Integredig.....	19
Yr amserlen bosibl ar gyfer gweithredu.....	21
Arbedion effeithlonrwydd a'r effaith bosibl ar wasanaethau Cefnogi Pobl.....	23
Goblygiadau ar gyfer Cynllunio a Darparu Rhanbarthol	27
Ein barn ni	30
Dosbarthu arian a chynllunio ariannol	33
Pwysau ariannu ac ansicrwydd.....	33
Y fformiwla ariannu	35
Amrywiadau lleol mewn cymorth ariannol i grwpiau cleientiaid	36
Ein barn ni	38
Monitro a Gwerthuso.....	40
Ein Barn ni.....	43
Atodiad - Tystion	44

Rhagair y Cadeirydd

Yn dilyn cyhoeddi adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol ym mis Awst 2017, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru gynigion ym mis Hydref 2017 i uno'r Rhaglen Cefnogi Pobl â nifer o raglenni grant eraill i greu un "Grant Ymyrraeth Gynnar, Atal a Cefnogi".

Mae'n amlwg o adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol, ac o'r dystiolaeth a gawsom, bod nifer o ddiffygion sylweddol o hyd o ran llywodraethu a rheolaeth y Rhaglen Cefnogi Pobl, ar ôl 14 blynedd o'i bodolaeth. Roedd y cynnydd wrth fynd i'r afael â materion a godwyd gan adolygiadau blaenorol, er enghraifft, mewn perthynas â'r fformiwla ariannu a monitro effaith y Rhaglen, wedi bod yn araf. Llwyddiant cymysg a gafodd yr ymdrechion i ddatblygu cydweithio rhanbarthol, ac nid oedd y Rhaglen wedi esblygu wrth i bolisiau newid. Roedd anghysondebau parhaus hefyd o ran rheoli'r rhaglen ar lefel leol.

Yn ddiamau, roedd angen ystyried dyfodol y Rhaglen Cefnogi Pobl, a nodwyd fod Llywodraeth Cymru eisoes wedi bod yn ymgynghori ar faterion yn ymwneud â nodau ac amcanion a threfniadau monitro'r Rhaglen.

Fodd bynnag, er ein bod yn cydnabod y gallai fod lle i integreiddio rhaglenni grant yn well er mwyn sicrhau gwell canlyniadau, mae gennym amheuan difrifol am y ffordd y datblygwyd ac y cyhoeddwyd y cynigion ar gyfer y grant integredig newydd ym manylion cynigion cyllideb Llywodraeth Cymru.

Rydym hefyd yn cwestiynu a yw'r grantiau y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu eu dwyn ynghyd yn cynrychioli'r ffordd orau o gyflawni ei hamcanion, ac heb gael effaith negyddol ar ddarparu cymorth sy'n gysylltiedig â thai ac atal digartrefedd. Mae angen i Lywodraeth Cymru wneud mwy i ddangos y sail dystiolaeth ar gyfer ei chynigion a phrofi'r trefniadau drwy werthusiad cadarn o brosiectau peilot ariannu hyblyg sydd bellach ar y gweill, cyn penderfynu ar gwmpas unrhyw grant newydd a'r amserlen ar gyfer ei weithredu. Mae angen gwneud hyn i gyd mewn ffordd sy'n gyson â'r ffyrdd o weithio a nodir o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, gan gynnwys sicrhau ymgysylltiad llawn â'r rhai y mae'n debygol y bydd unrhyw newidiadau yn effeithio arnynt.

Mae'r cynigion sydd wedi cael eu cyhoeddi wedi creu ansicrwydd sylweddol i'r rhai sy'n rhan o'r Rhaglen Cefnogi Pobl. Maent hefyd wedi creu ansicrwydd ynghylch a yw Llywodraeth Cymru yn bwriadu gweithredu ar y camau a nodwyd ganddi yn ei hymateb i argymhellion yr Archwilydd Cyffredinol ym mis Medi 2017,

y chydig wythnosau cyn cyhoeddi'r cynigion grant integredig, ac os bydd yn eu gweithredu, pryd y bydd hynny.

Sut bynnag y bydd unrhyw drefniadau grant yn y dyfodol yn edrych, mae'n bwysig y caiff y gwersi a nodir o lywodraethu a rheolaeth y Rhaglen Cefnogi Pobl eu gweithredu cyn gynted â phosibl.

Nick Ramsay AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Casgliadau ac argymhellion

Mae nifer o newidiadau polisi sylweddol wedi effeithio ar y Rhaglen Cefnogi Pobl y ddiweddar. Mae hyn yn cynnwys deddfwriaeth Llywodraeth Cymru ar wasanaethau cymdeithasol, cenedlaethau'r dyfodol, tai a chynlluniau ar gyfer diwygio llywodraeth leol, a pholisi Llywodraeth y DU ar ddiwygio lles.

Mae'r Pwyllgor yn nodi bod nodau'r rhaglen wedi gorfod newid i fodloni amcanion y newidiadau polisi hyn. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru wedi methu â llunio barn gydlynol a nodi pwrpas y grant Cefnogi Pobl yn glir yng ngoleuni'r newidiadau polisi hyn.

Barn y Pwyllgor yw nad yw cynigion Llywodraeth Cymru ar gyfer creu un grant integredig "Ymyrraeth Gynnar, Atal a Cefnogi" yn seiliedig ar dystiolaeth. Rydym wedi ein siomi gan absenoldeb amcanion strategol ar gyfer y cynigion ac, yn ehangach, y diffyg cyfeiriad gan Lywodraeth Cymru o ran y Rhaglen Cefnogi Pobl.

Yn fwy penodol, credwn nad yw amcanion strategol drafft Llywodraeth Cymru yn rhoi digon o eglurder ynghylch dibenion craidd y Rhaglen o atal digartrefedd.

Mae diffyg eglurder o hyd o ran amcanion y Rhaglen Cefnogi Pobl ac effaith datblygiadau polisi diweddar ar ddyfodol y rhaglen. Mae'n siomedig nad oedd Llywodraeth Cymru wedi gallu ymgynghori ar ganllawiau ac amcanion strategol y Rhaglen yn gynharach ac nad yw'r canllawiau diwygiedig a addawyd pan gyhoedwyd yr adroddiad, yn dal heb eu cyhoeddi.

Argymhelliad 1. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi canllawiau diwygiedig ar gyfer y Rhaglen yn gyflym er mwyn rhoi'r eglurder sydd ei angen ar nodau ac amcanion cyffredinol y Rhaglen. O leiaf, gellid darparu'r canllaw hwn ar gyfer y tymor byr, yng nghyd-destun y cynigion ar gyfer grant integredig newydd a goblygiadau adolygiad Llety â Chymorth Llywodraeth y DU.

Mae gennym bryderon difrifol am ddiffyg ymgysylltiad Llywodraeth Cymru â'r sector wrth ddatblygu ei chynigion ac mae'n annerbyniol inni bod rhai rhanddeiliaid wedi cael eu cadw yn y tywyllwch. Ymddengys bod yr ymagwedd a gymerwyd yn gyferbyniad llwyr â'r egwyddor cyd-gynhyrchu roedd Llywodraeth Cymru wedi ceisio ei rhoi wrth wraidd y Rhaglen Cefnogi Pobl dros y blynyddoedd blaenorol. Digwyddodd hyn mewn cyfnod pan oedd Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ar wahân ar ganllawiau ac amcanion strategol diwygiedig y Rhaglen Cefnogi Pobl ac ar "Fframwaith Canlyniadau" i'r Rhaglen a pharatoi ymateb i argymhellion yr Archwilydd Cyffredinol.

At hynny, credwn nad oedd “nodi bwriad” ynghylch cynigion y grant integredig yn gymesur â’r ffyrdd o weithio a ddisgwylir o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015, waeth beth yw barn Llywodraeth Cymru y byddai ei chynigion yn hwyluso ailgynllunio gwasanaeth yn unol ag egwyddorion a nodau’r Ddeddf.¹ Rydym yn nodi ac yn croesawu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ymgysylltu â rhanddeiliaid drwy gyfarfodydd y “Gweithgor Braenaru” sydd wedi’i sefydlu. Mae’n hollbwysig bod unrhyw newidiadau i’r rhaglenni grant presennol yn seiliedig ar dystiolaeth gyda’r nod o wella canlyniadau i bobl agored i niwed ac nid yn ffordd o arbed arian yn y tymor byr yn unig.

Argymhelliad 2. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn ymgysylltu’n agos â sefydliadau rhanddeiliaid allweddol wrth werthuso effaith prosiectau peilot ariannu hyblyg a phennu cwrpas ac amseriad unrhyw integreiddio pellach o ran grant, sy’n effeithio ar y Rhaglen Cefnogi Pobl y tu hwnt i 2018-19.

Rydym yn nodi bod y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau yn cydnabod y caiff y grant cyfunol sengl arfaethedig ei neilltuo at ddiben darparu ymyrraeth gynnar, atal a chefnogi ac rydym yn cytuno â hynny. Rydym hefyd yn rhannu ei bryderon y bydd dileu elfen neilltuo o Grant y Rhaglen Cefnogi Pobl yn rhwystro’r gwaith o ddarparu gwasanaethau cymorth hanfodol sy’n gysylltiedig â thai, gan gynnwys y rhai ar gyfer pobl sy’n cysgu ar y stryd.

Rydym hefyd yn cytuno â chanfyddiadau’r Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau y bydd y grant cyfun yn ymestyn ar draws dau bortffolio Gweinidogol ac yn cytuno â’r cwestiynau ynghylch sut y bydd hyn yn effeithio ar benderfyniadau ariannu yn y dyfodol, yn ogystal â threfniadau craffu ac atebolrwydd.

Mae gennym amheuan dybryd ynghylch yr amserlenni a nodir gan Lywodraeth Cymru ar hyn o bryd ar gyfer gwerthuso’r prosiectau peilot ariannu hyblyg os yw Llywodraeth Cymru’n parhau wedi ymrwymo i gyflwyno grant integredig yn 2019-20. Fodd bynnag, nodwn gydnabyddiaeth y Dirprwy Ysgrifennydd Parhaol na fydd, mewn gwirionedd, yn digwydd ar unwaith.

Argymhelliad 3. Mae’r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn aros a meddwl am ei ffordd o werthuso dichonoldeb cynnig grant integredig. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn ystyried ymestyn amserlen y prosiectau peilot ariannu hyblyg er mwyn sicrhau y gellir cynnal archwiliad trylwyr a manwl o’u heffaith.

¹ Cynigion Cyllideb Llywodraeth Cymru, paragraffau 4.26-4.31.

Argymhelliad 4. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru, fel rhan o'i gwaith gwerthuso, yn nodi'n glir i ba raddau y mae awdurdodau lleol unigol wedi manteisio ar yr hyblygrwydd cyllido a ddarperir a sut mae hyn wedi cynnal gwell canlyniadau.

Argymhelliad 5. Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ar ganlyniadau'r gwaith o hwyluso monitro canlyniadau cymharol ar gyfer gwahanol grwpiau o gleientiaid. Hoffai'r Pwyllgor glywed hefyd, am ganlyniadau gwaith gwerthuso ehangach Llywodraeth Cymru ac mae'n argymell bod canfyddiadau'r gwerthusiad yn cael eu hadrodd inni yn ffurfiol.

Rydym yn pryderu na all rhesymeg ddatganedig Llywodraeth Cymru am integreiddio grantiau presennol ystyried yn ddigonol y ffordd y mae'r rhaglen yn gweithio gyda'r rhai sy'n ddigartref neu sydd mewn perygl o fod yn ddigartref. Hoffem weld monitro a gwerthuso pellach o'r cynlluniau peilot, ynghyd â mwy o ymgysylltiad â rhanddeiliaid, i brofi'r rhesymeg hon.

Argymhelliad 6. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ailystyried y grantiau y mae'n bwriadu eu cynnwys mewn ffrwd ariannu integredig, ac ystyried yn arbennig, fel rhan o ddatblygiad yn y dyfodol, rinweddau cymharol integreiddio Cefnogi Pobl â grantiau tai a digartrefedd yn unig.

Mae'r sefyllfa ynghylch a yw arian y Rhaglen Cefnogi Pobl wedi'i ddiogelu yn parhau'n aneglur, gyda negeseuon cymysg gan Lywodraeth Cymru. Mae angen i Lywodraeth Cymru fod yn glir o ran ei bwriad.

Mae gan y Pwyllgor amheuan, hefyd, bod Llywodraeth Cymru yn chwilio am Grant Integredig newydd i sicrhau arbedion o £13 miliwn nad ydynt, yn ôl Llywodraeth Cymru, yn seiliedig ar ddadansoddiad o'r bon i'r brig o'r hyn y gellir ei gyflawni. Gall hyn olygu eto mai'r unig ffordd o gyflawni'r arbedion ariannol sydd eu hangen yw drwy effeithio ar ansawdd a lefel y gwasanaethau a ddarperir gan y grantiau sy'n cael eu hintegreiddio, gan gynnwys y Rhaglen Cefnogi Pobl.

Argymhelliad 7. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn mesur yn glir faint o arbedion ariannol y gellir eu cronni drwy leihau costau gweinyddol a darparu gwasanaethau'n fwy effeithlon drwy ei chynigion grant integredig. Dylai'r gwerthusiad hwn gynnwys sicrwydd bod yr arbedion effeithlonrwydd y gellir eu cyflawni yn yr ardaloedd braenaru yn rhai y gellir eu cyflawni'n rhwydd mewn manau eraill.

Nodir hefyd bod pryderon o hyd ynghylch effeithiolrwydd ac effaith Pwyllgorau Cydweithredol Rhanbarthol, gyda'r cynnydd yn amrywio o ran datblygu prosiectau a gwasanaethau rhanbarthol. Mae'r cynigion ar gyfer y grant integredig

yn codi cwestiynau pellach ynghylch rôl a swyddogaeth y pwyllgorau hynny ac mae unrhyw ansicrwydd yn hyn o beth yn tanseilio eu heffeithiolrwydd.

Argymhelliad 8. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn egluro rôl y Pwyllgorau Cydweithredol Rhanbarthol yng nghyd-destun y prosiectau peilot ariannu hyblyg ac os bydd unrhyw grant integredig yn cael ei gyflwyno yn y dyfodol.

Rydym yn nodi'r pryderon a godwyd gan dystion bod rhai darparwyr yn tynnu'n ôl rhag cynnig am wasanaethau oherwydd yr ansicrwydd ariannu ac yn cefnogi argymhellion yr Archwilydd Cyffredinol ynghylch ailgyflwyno dyraniadau ariannu tair blynedd cyn gynted â phosibl a symud i gynlluniau gwariant tair blynedd. Credwn fod yr argymhellion hyn yn parhau'n berthnasol hyd yn oed os yw Llywodraeth Cymru yn integreiddio cyllid y Rhaglen Cefnogi Pobl â rhaglenni grant eraill.

Rydym yn pryderu ei bod yn bosibl y gallai darparwyr fod yn tynnu'n ôl o gynnig am wasanaethau oherwydd yr ansicrwydd ychwanegol a achosir gan y cynigion grant integredig.

Argymhelliad 9. Ynghyd â'i gwerthusiad o'r prosiectau peilot ariannu hyblyg, rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn cynnal adolygiad brys i ganfod a oes comisiynwyr yn cael trafferth denu ceisiadau am wasanaethau Cefnogi Pobl oherwydd ansicrwydd ariannu.

Mae'r cynigion ar gyfer grant integredig yn codi cwestiynau am gynlluniau ar gyfer y fformiwla ariannu Cefnogi Pobl. Mae wedi bod yn anodd symud i sefyllfa o ddyrannu arian y Rhaglen Cefnogi Pobl ar sail angen. Ymddengys y byddai unrhyw gam tuag at grant integredig gyda mwy o hyblygrwydd ariannu yn creu mwy o gymhlethdod o ystyried yr amrediad ehangach o ddibenion y gellid defnyddio arian y grant ar eu cyfer.

Argymhelliad 10. Rydym yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor ynghylch ei hymateb i argymhelliad yr Archwilydd Cyffredinol ar y fformiwla ariannu i egluro ei bwriad. Dylai'r diweddariad hwn gynnwys manylion ynghylch sut mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu dyrannu'r gyllideb gyffredinol i awdurdodau lleol ar gyfer unrhyw grant integredig gan sicrhau hefyd ei bod yn seiliedig ar anghenion.

Rydym yn nodi ymateb cadarnhaol Llywodraeth Cymru i argymhellion yr Archwilydd Cyffredinol ynghylch ystyried amrywiadau o ran darparu gwasanaethau Cefnogi Pobl ar gyfer pobl ag anabledau dysgu a meincnodi costau ehangach y gwasanaeth. Fodd bynnag, nid yw'n glir i ni a yw Llywodraeth

Cymru yn parhau i fod yn ymrwymedig i'r camau gweithredu hyn o ystyried y cynigion grant integredig.

Argymhelliad 11. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn cadarnhau ei hymrwymiad i'r camau a nododd eisoes mewn ymateb i argymhellion yr Archwilydd Cyffredinol ynghylch gwasanaethau anabledau dysgu a meincnodi costau gwasanaethau.

Argymhelliad 12. Rydym hefyd yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn edrych yn yr un modd ar y mater o amrywiad rhwng awdurdodau lleol yn y ddarpariaeth Cefnogi Pobl ar gyfer grwpiau penodol eraill, gan gynnwys unrhyw wahaniaethau amlwg yn y math o gefnogaeth, h.y. sefydlog neu amrywiol.

Mae'n siomedig nad oes gan Lywodraeth Cymru, ar ôl 14 blynedd, ddigon o ddealltwriaeth o effaith y Rhaglen Cefnogi Pobl a bod gwendidau tebyg o ran monitro a gwerthuso wedi'u canfod mewn meysydd eraill o ddarparu polisi.

Mae'n dal yn aneglur beth yn union y mae'r cynigion ar gyfer y grant integredig newydd yn ei olygu, bellach, i'r newidiadau i'r fframwaith canlyniadau y bu Llywodraeth Cymru yn ymgynghori arnynt, ac ar gyfer gwaith gwerthuso arall.

Argymhelliad 13. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn darparu arweiniad a hyfforddiant cynhwysfawr i sicrhau bod unrhyw fframwaith canlyniadau diwygiedig, ar gyfer y Rhaglen Cefnogi Pobl, neu unrhyw grant integredig newydd, wedi'i ddeall yn iawn a'i ddefnyddio'n gyson ledled Cymru o'r dechrau.

Rhagarweiniad

1. Ar 25 Medi 2017, cytunodd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus (y Pwyllgor) i gynnal ymchwiliad i reolaeth Llywodraeth Cymru o'r Rhaglen Cefnogi Pobl (y Rhaglen). Roedd hyn yn dilyn cyhoeddi adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru ar "Raglen Cefnogi Pobl Llywodraeth Cymru"² a gyhoeddwyd ym mis Awst 2017.
2. Mae'r rhaglen yn rhoi arian grant i awdurdodau lleol i ddarparu gwasanaethau cymorth sy'n gysylltiedig â thai i amrywiaeth eang o bobl, boed hynny'n uniongyrchol neu drwy ddarparwyr trydydd parti. Sefydlwyd y Rhaglen yn 2003, a mabwysiadwyd cyfres newydd o drefniadau llywodraethu a rheoli yn 2012. Mae Llywodraeth Cymru yn gwario tua £125 miliwn y flwyddyn ar y Rhaglen ar hyn o bryd.
3. Yn ei adroddiad, ystyriodd yr Archwilydd Cyffredinol a yw Llywodraeth Cymru wedi rhoi trefniadau effeithiol ar waith i reoli'r Rhaglen ac i sicrhau ei bod yn darparu gwasanaethau o safon, sydd wedi'u targedu'n briodol.
4. Daeth adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol i'r casgliad nad yw'r camau a gymerwyd i fynd i'r afael â phryderon hirsefydlog ynglŷn â'r modd y cafodd y Rhaglen ei chynllunio a'i rhoi ar waith wedi bod yn effeithiol bob amser, er gwaethaf rhai gwelliannau, ac mai araf fu'r cynnydd a wnaed mewn meysydd allweddol a bod anghysonderau yn y modd y caiff y Rhaglen ei rheoli'n lleol ac yn rhanbarthol.
5. Gwnaeth yr adroddiad wyth argymhelliad i Lywodraeth Cymru am faterion a oedd yn cynnwys effaith diwygiadau polisi ehangach ar y Rhaglen; y fformiwla ariannu a chyfnodau ariannu a chynllunio'r Rhaglen; ac eglurder y canllawiau ar gaffael gwasanaethau Cefnogi Pobl.
6. Ymatebodd Llywodraeth Cymru i argymhellion yr Archwilydd Cyffredinol, gan dderbyn saith yn llawn, ac un mewn egwyddor.
7. Bu ymchwiliad y Pwyllgor yn archwilio ymatebion Llywodraeth Cymru i ganfyddiadau'r Archwilydd Cyffredinol a materion ehangach sy'n deillio o fwriadau polisi Llywodraeth Cymru yn y maes hwn.
8. Ar 24 Hydref 2017, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru fanylion ei chynlluniau cyllideb ddrafft. Roedd y cynigion yn nodi bod ystyriaeth yn cael ei rhoi, ar gyfer

² **Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, Rhaglen Cefnogi Pobl Llywodraeth Cymru, Awst 2017**

2019-20, i greu un grant integredig a fyddai'n "Grant Ymyrraeth Gynnar, Atal a Cefnogi", a fyddai'n dwyn ynghyd nifer o raglenni a ariennir gan grantiau, gan gynnwys Cefnogi Pobl. Effaith bosibl y cynigion hyn, a'r ffordd y daethant i'r amlwg, oedd yn cael y rhan fwyaf o'r sylw yn y dystiolaeth a gawsom.

9. Yn ogystal, ar 31 Hydref 2017, lansiodd Llywodraeth y DU ddau ymgynghoriad ar gyllid ar gyfer tai â chymorth. Mae Llywodraeth y DU yn cynnig na fydd yn darparu budd-dal tai i dalu am lety â chymorth tymor byr ac y byddai hyn yn cael ei drosglwyddo, yn hytrach, i floc ariannu Cymru.

10. Fel rhan o'r gwaith o gasglu tystiolaeth, cynhaliodd y Pwyllgor sesiynau tystiolaeth ac ymgynghoriad i gasglu barn rhanddeiliaid. Aeth rhai o Aelodau'r Pwyllgor i'r Digwyddiadau Ymgynghori Defnyddwyr Gwasanaeth Bwrdd Cyngori Cenedlaethol Cefnogi Pobl (SPNAB) a gynhaliwyd ym mis Ionawr 2018.

11. Ac eithrio ein sesiwn dystiolaeth gyda Llywodraeth Cymru ar 22 Ionawr 2018, cafwyd yr holl dystiolaeth lafar arall cyn cytuno ar Gyllideb 2018/19 Llywodraeth Cymru yn y Cyfarfod Llawn ar 16 Ionawr 2018.

12. Ystyriodd y Pwyllgor hefyd adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru ar "Sut mae Llywodraeth Leol yn rheoli galw - Digartrefedd" a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2018. Er na wnaeth y Pwyllgor geisio cynnal ymchwiliad ar wahân ar yr adroddiad hwn, fe wnaethom ysgrifennu at Lywodraeth Cymru gyda nifer o gwestiynau yn codi o'r adroddiad gan eu bod yn ymwneud â'r Rhaglen Cefnogi Pobl.

13. Ochr yn ochr â'n hymchwiliad, cynhaliodd y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau ymchwiliad i "Gysgu ar y Stryd", a oedd yn ystyried y cyllid cynaliadwy hirdymor a buddsoddiad parhaus mewn gwasanaethau cefnogi ar gyfer pobl sy'n cysgu ar y stryd. Ystyriodd yr ymchwiliad hefyd yr arian a ddarperir yn flynyddol drwy Grant y Rhaglen Cefnogi Pobl ac effaith bosibl cynnig Llywodraeth Cymru i uno'r grant â grantiau tai eraill a grantiau nad ydynt yn rhai tai. Adlewyrchir canfyddiadau perthnasol yr ymchwiliad hwnnw yn ein hadroddiad.

Amcanion y Rhaglen Cefnogi Pobl

14. Mae nifer o newidiadau polisi diweddar wedi effeithio ar y Rhaglen Cefnogi Pobl. Mae hyn yn cynnwys deddfwriaeth Llywodraeth Cymru ar wasanaethau cymdeithasol, cenedlaethau'r dyfodol, tai a chynlluniau ar gyfer diwygio llywodraeth leol, a pholisi Llywodraeth y DU ar ddiwygio lles.

15. Canfu adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol fod Llywodraeth Cymru wedi cydnabod bod gan ddatblygiadau polisi ehangach oblygiadau i'r Rhaglen. Fodd bynnag, nid oedd wedi adolygu nodau'r Rhaglen yn ffurfiol, er gwaethaf gosod agenda ehangach a chynyddol gymhleth i'r awdurdodau lleol. Cwblhaodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad ar ei chanllawiau Rhaglen ddiwygiedig ym mis Awst 2017, a oedd yn cynnwys cyfres newydd o amcanion strategol. Y bwriad gwreiddiol oedd dechrau'r broses ymgynghori hon ar ddiwedd 2015 ond cafodd ei ohirio gan gyfyngiadau ar adnoddau ar gyfer Llywodraeth Cymru a'i phartneriaid.

16. Dywedodd tystion wrth y Pwyllgor mai'r rhaglen yw un o raglenni mwyaf trawsbynciol Llywodraeth Cymru. Er bod cefnogaeth gyffredinol y dylai ffocws y Rhaglen fod ar leihau digartrefedd, y teimlad yw bod y ffocws hwn wedi dioddef dros y blynyddoedd diwethaf, oherwydd y nifer o flaenoriaethau cystadleuol a osodir ar y Rhaglen.

17. Awgrymodd rhai tystion fod y colli ffocws hwn hefyd wedi deillio o'r tirwedd polisi cymhleth a bod gwahanol Weinidogion Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am y Rhaglen. Cafwyd crynodeb o'r pryderon hyn mewn tystiolaeth gan y Wallich:

“In recent years, the Welsh Government’s strategic aims for the Supporting People programme has been characterised by a series of letters from Ministers – these letters highlighted priority areas, emerging at various times at which the programme’s aims might need to shift: examples include meeting the aims of the Housing (Wales) Act and the Health, Social Care and Wellbeing (Wales) Act; tackling poverty; investigating Adverse Childhood Experiences (ACEs); domestic abuse; and substance misuse in Wales.

It would be beneficial if the Welsh Government were to consolidate a coherent view on the purpose of making the grant available and

publish this, taking into account recent policy and implementation developments.”³

18. Dywedodd Cymorth Cymru wrthym, er bod ei aelodau’n teimlo bod amcanion y Rhaglen yn glir ac yn briodol, fod y blaenoriaethau gwleidyddol sy’n newid yn gyson ac sydd weithiau’n cystadlu yn erbyn ei gilydd gan wahanol Weinidogion sy’n gyfrifol am y Rhaglen, wedi peri dryswch i ddarparwyr a chomisiynwyr.⁴

19. Er bod Llywodraeth Cymru o’r farn bod y Rhaglen yn rhoi cefnogaeth hanfodol i atal digartrefedd a mynd i’r afael â thlodi, canfu adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol na chyfeirir yn benodol at y materion hyn yn y diben a’r amcanion presennol sydd wedi’u datgan.⁵

20. Cefnogwyd hyn mewn tystiolaeth ysgrifenedig gan Cartrefi Cymunedol Cymru (CHC):

“We share the Auditor General’s concerns as to the lack of explicit reference to prevention of homelessness in the programmes stated purpose and aims, though we are clear as to the transformative effect that Supporting People funded services have on enabling people to live independently and retain tenancies.”⁶

21. Mewn tystiolaeth lafar, ehangodd Cymorth Cymru ar y materion hyn gan esbonio:

“Reading the auditor general’s report, and recognising that that distinct focus on homelessness was missing from the original objective seems really alien to us, because that is at the root of everything that Supporting People does, whether it’s putting a roof over someone’s head in supported accommodation, or whether it’s providing floating support that enables someone to avoid eviction.”⁷

22. Esboniodd tystiolaeth ysgrifenedig gan Gyngor Sir Ynys Môn:

“...it is our opinion that Welsh Government need to decide whether or not it is their intention to publish the revised Guidance which has been

³ PAC(5)-SP02 – Tystiolaeth ysgrifenedig.

⁴ PAC(5)-SP18 – Tystiolaeth ysgrifenedig.

⁵ Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, paragraffau 1.2-1.4

⁶ **PAC(5)-29-17 PI**, 20 Tachwedd 2017

⁷ Cofnod y Trafodion, 20 Tachwedd 2017, paragraff 57

in draft format prior to the publication of the Auditor General's Report. In general, it is our opinion that the current revised draft guidance provides greater overall clarity of the Programme's objectives compared to the actual guidance, which remains in use."⁸

23. Yn yr un modd, dywedodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) wrthym:

"We welcome the development of revised guidance and new strategic objectives for the Programme, and hope that these will bring greater and refreshed clarity to the aims and purpose of the Programme."⁹

24. Wrth ymateb i argymhelliad 5 o adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol, sy'n argymhell y dylai Llywodraeth Cymru nodi a chyfleu'n glir beth fyddai goblygiadau diwygiadau ar y Rhaglen, dywedodd Llywodraeth Cymru:

"We have initiated a large scale exercise to co-produce policy development in order to address the challenge posed by the Department of Work and Pensions Supported Accommodation Review. We will build on this, working with the sector via the Supporting People National Advisory Board to consider what additional improvements can be made to the current mechanisms for communication to ensure the Welsh Government's programme is widely understood."¹⁰

25. Yn ystod tystiolaeth lafar, eglurodd swyddogion Llywodraeth Cymru fod yr amserlen ar gyfer Adolygu Llety â Chymorth yn cael ei llywio gan Lywodraeth y DU a bod y newidiadau arfaethedig yn wahanol i'r rhai a ddisgwylwyd yn wreiddiol.

Ein barn ni

26. Mae diffyg eglurder o hyd o ran amcanion y Rhaglen Cefnogi Pobl ac effaith datblygiadau polisi diweddar ar ddyfodol y rhaglen. Mae'n siomedig nad oedd Llywodraeth Cymru wedi gallu ymgynghori ar ganllawiau ac amcanion strategol y Rhaglen yn gynharach ac nad yw'r canllawiau diwygiedig a addawyd pan gyhoedwyd yr adroddiad, yn dal heb eu cyhoeddi.

Argymhelliad 1. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi canllawiau diwygiedig ar gyfer y Rhaglen yn gyflym er mwyn rhoi'r eglurder sydd ei angen ar nodau ac amcanion cyffredinol y Rhaglen. O leiaf, gellid darparu'r

⁸ PAC(5) SP03 Tystiolaeth ysgrifenedig.

⁹ PAC(5) SP16 Tystiolaeth ysgrifenedig.

¹⁰ Ymateb Llywodraeth Cymru i Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, 20 Medi 2017

canllaw hwn ar gyfer y tymor byr, yng nghyd-destun y cynigion ar gyfer grant integredig newydd a goblygiadau adolygiad Llety â Chymorth Llywodraeth y DU.

Cynigion ar gyfer un Grant Integredig

27. Mae Cynigion Cyllideb Llywodraeth Cymru ar gyfer 2018-19 yn disgrifio'r modd y mae Llywodraeth Cymru yn ystyried creu un grant ym maes ymyrraeth gynnar, atal a chefnogi yn lle amrywiaeth o grantiau presennol.¹¹ Er nad yw Llywodraeth Cymru wedi gwneud penderfyniad terfynol hyd yma, mae'r dystiolaeth a gafodd y Pwyllgor wedi codi amryw o bryderon ynghylch y cynigion a'r ffordd y cawsant eu cyfathrebu.

Cyfathrebu â sefydliadau rhanddeiliaid allweddol

28. Wrth sôn am gyhoeddi'r cynigion am grant integredig, dywedodd Prif Weithredwr Cartrefi Cymunedol Cymru:

“...we had no inclination that this was coming. So, I think that this says where we were in terms of consultation.”¹²

29. Yn yr un modd, dywedodd Cyfarwyddwr Cymorth Cymru:

“...we work really well collaboratively with officials on many areas, and in particular the supporting accommodation review...but on this particular issue, it has felt like it's gone on behind closed doors during the summer and then has just come out through detailed budget proposals.”¹³

30. Dywedodd ymatebydd i'n hymgyngoriad wrthym:

“Where was the consultation? Why were programme leads kept in the dark?”¹⁴

31. Wrth ymateb i'r pryderon hyn mynegodd y Dirprwy Ysgrifennydd Parhaol siom bod pobl yn teimlo nad oeddynt wedi bod yn rhan o'r broses ymgysylltu.¹⁵ Wrth bwysu ar Lywodraeth Cymru ynghylch pa mor gynhwysol oeddent wedi bod wrth ymgysylltu â rhanddeiliaid, dywedwyd wrthym ei bod yn hyderus ei bod wedi ymgysylltu'n eang ac nad oedd yr hysbysiad o fwy o hyblygrwydd ariannu yn syniad newydd. Fodd bynnag, fe gyfaddefodd y Dirprwy Ysgrifennydd Parhaol:

¹¹ **Llywodraeth Cymru - Cyllideb Ddrafft 2018-19 Cynigion Manwl, paragraffau 4.26-4.31**

¹² Cofnod y Trafodion, 20 Tachwedd 2017, paragraff 147

¹³ Cofnod y Trafodion, 20 Tachwedd 2017, paragraff 142

¹⁴ PAC(5) SP07 Tystiolaeth ysgrifenedig

¹⁵ Cofnod y Trafodion, 22 Ionawr 2018, paragraff 27

“...it certainly looks to me like we were signalling intent, but maybe not in a clear enough way that, perhaps, people were really understanding what we were saying.”¹⁶

Cwmpas posibl y Grant Integredig

32. Cafodd materion pellach yn ymwneud â ffordd Llywodraeth Cymru o ddatblygu ei chynigion ei chynrychioli mewn tystiolaeth gan Consortia Cydweithredol Rhanbarthol Bae'r Gorllewin (RCC). Roedd y materion hynny'n cynnwysdealltwriaeth gyfyngedig o ran rhai o'r grantiau llai adnabyddus yn y rhestr.

33. Dywedodd Cymorth Cymru a Chartrefi Cymunedol Cymru wrthym nad oedd y penderfyniad ar aliniad grant yn seiliedig ar dystiolaeth. Eglurodd Cartrefi Cymunedol Cymru:

“We're not averse to discussing how funding could be spent better. Where there is efficacy in merging pots and commissioning differently, we're absolutely up for that conversation. We want to do the best for the people that we serve. But, to make policy decisions without evidence, I think, is worrying.”¹⁷

34. Wrth roi sylwadau ar y sail dystiolaeth ar gyfer integreiddio grant y Rhaglen â Teuluoedd yn Gyntaf, Dechrau'n Deg a Grant Cymunedau yn Gyntaf, dywedodd Cymorth wrthym:

“...there is just no recognition of homelessness, housing-related support and non-families, which is what a lot of the Supporting People programme supports. That isn't the focus for those people in the world that they operate in. No-one in the sector can make any sense of putting Supporting People with those other programmes.”¹⁸

Ychwanegodd:

“...we're absolutely ready to engage constructively in conversations about grant alignment. We just think that SP doesn't belong in that group. It absolutely belongs with things like the homelessness

¹⁶ Cofnod y Trafodion, 22 Ionawr 2018, paragraff 28

¹⁷ Cofnod y Trafodion, 20 Tachwedd 2017, paragraff 160

¹⁸ Cofnod y Trafodion, 20 Tachwedd 2017, paragraff 164

prevention grant and the supported accommodation money from Westminster.”¹⁹

35. Cyflwynwyd tystiolaeth debyg gan Gyngor Dinas Casnewydd a awgrymodd nad oedd fawr ddim cysylltiad rhwng y Grant Cefnogi Pobl a'r cyllid ar gyfer Dechrau'n Deg a Cymunedau'n Gyntaf:

“...in Newport, we did an analysis of Supporting People households and Flying Start households and Communities First households, and you'd expect there to be at least a 50 per cent linkage with those households, but it was 15 per cent in both cases. That's the household, never mind members of the household, just the household synergy crossover.”²⁰

36. Mewn ymateb i'r dystiolaeth hon, esboniodd y Dirprwy Ysgrifennydd Parhaol y byddai trawsgreosi 100 y cant yn awgrymu bod yr holl grantiau presennol yn ceisio cyflawni'r un peth, gyda risg o ddyblygu adnoddau.

37. Dywedodd Cartrefi Cymunedol Cymru wrthym ei fod yn galw ar Lywodraeth Cymru i ohirio ail-alinio grantiau sy'n mynd i'r afael â thlodi er mwyn caniatáu i'r model cyllido newydd ar gyfer costau tai yn y sector llety â chymorth tymor byr gael ei sefydlu. Byddai hyn yn caniatáu mwy o amser i ymgynghori'n ehangach ynghylch mynd i'r afael â grantiau tlodi a dadansoddiad manylach o ba grantiau fyddai'n adlinio orau.²¹

38. Yn yr un modd, cynigiodd Cymorth Cymru ddatrysiad arall ar gyfer ail-alinio grantiau, gan awgrymu alinio'r Grant Cefnogi Pobl â'r Grant Atal Digartrefedd a'r cyllid ar gyfer llety â chymorth a gaiff ei ddatganoli i Lywodraeth Cymru yn 2019-20. Mae hyn yn seiliedig ar egwyddorion alinio grant ond mae'n cadw Cefnogi Pobl o fewn tai a digartrefedd.²²

39. Gofynnwyd am farn Llywodraeth Cymru ar y cynnig hwn a dywedwyd wrthym:

“...there are always decisions to be made to be balanced in this process, but I think our belief is that people who are at risk of becoming homeless, or who have become homeless, often have much more complex needs than simply needing support for housing, and therefore

¹⁹ Cofnod y Trafodion, 20 Tachwedd 2017, paragraff 164

²⁰ Cofnod y Trafodion, 27 Tachwedd 2017, paragraff 217

²¹ PAC(5)-SP06 – Tystiolaeth ysgrifenedig.

²² PAC(5)-SP18 – Tystiolaeth ysgrifenedig.

having that wider array, I suppose, of support in a more flexible way would provide them with a better response.”²³

40. Dywedwyd wrthym hefyd:

“...when we’re thinking about prevention, it’s important to note that quite a lot of the causes for people presenting as at risk of homelessness are actually more closely linked to family circumstances or debt management or domestic violence and so forth. So, when we’re thinking in the prevention arena, actually, there’s a great synergy across a number of these grants if we want to move our efforts upstream and prevent people from becoming actually homeless.”²⁴

41. Ysgrifenasom at y Gweinidog Tai ac Adfywio ar 21 Tachwedd 2017 yn gofyn am ystyried y pryderon a godwyd gyda ni ynghylch cwmpas y cynigion grant integredig fel rhan o’i drafodaethau wrth bennu’r gyllideb derfynol.

42. Bydd y Gweinidog yn ystyried ein pryderon pan fydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda rhanddeiliaid i lywio penderfyniadau ynghylch strwythurau grant yn y dyfodol. Fodd bynnag, ni fydd unrhyw newidiadau ar uwaith i gynigion Llywodraeth Cymru yng nghyllideb derfynol 2018-19.

Yr amserlen bosibl ar gyfer gweithredu

43. Bydd prosiectau peilot i brofi dichonoldeb creu grant integredig yn cael eu cynnal yn ystod 2018-19. Clywsom bryderon bod yr amserlenni hyn yn fyr ac na fyddent yn caniatáu digon o amser i werthuso pe bai Llywodraeth Cymru yn cyflwyno grant integredig yn 2019-20. Roedd y dystiolaeth a gawsom hefyd yn codi pryderon ynghylch y gwaith fyddai ei angen i wneud y trefniadau gweinyddol angenrheidiol ar gyfer y grant.

44. Tynnwyd sylw at y pryderon hyn mewn tystiolaeth ysgrifenedig gan The Wallich, a nododd:

“The time it would take for the Welsh Government to devise and issue guidance for the implementation for amalgamating up to ten grants needs consideration.”²⁵

Ychwanegodd:

²³ Cofnod y Trafodion, 22 Ionawr 2018, paragraff 65

²⁴ Cofnod y Trafodion, 22 Ionawr 2018, paragraff 68

²⁵ PAC(5) SP02 – Tystiolaeth ysgrifenedig.

“There also appears to be little or no time to undertake a monitoring and evaluation exercise within the pilot areas prior to the super grant rollout. This leads to a danger that any failures of the pilot will be ‘inherited’ during the transition to the super grant, as the time for monitoring and evaluation of the pilot is extremely limited.”²⁶

45. Mewn cyferbyniad, esboniodd Llywodraeth Cymru:

“Interim arrangements for the pathfinders will allow for comparable monitoring of outcomes for different client groups and an external evaluation of the process is being commissioned.”²⁷

46. Fodd bynnag, cytunodd y Dirprwy Ysgrifennydd Parhaol efallai na fyddai'n bosibl cyrraedd unrhyw ddyfarniadau pendant yn unol â'r amserlenni sydd wedi'u pennu ar gyfer y gwerthusiad. Cawsom wybod:

“You're right: if we were to go for a full big bang early intervention and preventative support grant for all local authorities for the next financial year, that decision would need to be taken well in advance of that, certainly probably by December of next year, when we'd have had probably nine months of running with this. I think what we need to do is we need to assess what information we have, how confident we feel about that information, what those proxy indicators are showing us, and, as I say, it may not be a big bang sort of decision; there may be complete variation on that. For example—and I am sort of freelancing a bit here, but there's probably a variation of things that could happen, from deciding to run the pathfinders for longer, into the following financial year, or maybe feeling confident on the basis of those and saying, 'Right, they can have 100 per cent flexibility going forward' and then maybe taking a new cohort of pathfinders. So, I don't think it's necessarily a complete, 'We don't do it', or 'We do do it in absolute full—'. I think we will have to collate all the information, including stakeholder feedback, and provide that advice to Ministers to take a decision.”²⁸

47. Yn wreiddiol, roedd Llywodraeth Cymru wedi nodi y byddai'n rhoi 100 y cant o hyblygrwydd i saith awdurdod lleol mewn pump o granatau yn 2018-19: Teuluoedd yn Gyntaf; Dechrau'n Deg; Cefnogi Pobl; Cronfa Etifeddiaeth Cymunedau yn Gyntaf; a'r Grant Cyflogadwyedd. Fodd bynnag, ar ôl ystyriaeth

²⁶ PAC(5) SPO2 – Tystiolaeth ysgrifenedig.

²⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig Llywodraeth Cymru, tudalen 2

²⁸ Cofnod y Trafodion, 22 Ionawr 2018, paragraff 144

bellach, amlinellodd Llywodraeth Cymru ei bod yn rhoi hyblygrwydd llawn i'r saith awdurdod lleol ar draws 10 o'r 13 grant a amlinellir yn y cynigion cyllideb gwreiddiol. Bydd yr awdurdodau lleol eraill yn derbyn hyblygrwydd cyfyngedig o 15 y cant ar draws y pum grant arfaethedig cyntaf.

48. Fodd bynnag, nid yw'n glir faint o hyblygrwydd fydd yn digwydd yn ymarferol ar lawr gwlad yn ystod 2018-19, o ystyried cyngor Llywodraeth Cymru i'r awdurdodau Braenaru lleol. Dywedodd Swyddogion Llywodraeth Cymru wrthym:

“It may also be worth reflecting that the indicative grant offer letters that have just gone to pathfinders include a reference to the fact that, for the Supporting People programme, it's our expectation that authorities should allocate funding to the Supporting People programme at least at the level of the Supporting People allocation—that will be shown in an annex in the grant offer letters—unless they can demonstrate that they can be sure of delivering the same or improved services for less money as a result of efficiencies.”²⁹

49. Rydym hefyd yn ymwybodol bod cytundebau aml-flwydd mewn rhai achosion, yn cael eu dyfarnu am wasanaethau o dan y Rhaglen Cefnogi Pobl. Gall ymrwymadau i'r gwasanaethau hyn felly gyfyngu ar y cwmpas ar gyfer hyblygrwydd yn 2018-19. Roedd y Dirprwy Ysgrifennydd Parhaol yn cytuno bod hwn yn fater y byddai angen i'r broses werthuso ei ystyried, gan nodi:

“...if contracts are pre-committed then the room for manoeuvre, I suppose—the chance to explore flexibilities—will be more limited and, therefore, we will learn less from that process.”³⁰

Arbedion effeithlonrwydd a'r effaith bosibl ar wasanaethau Cefnogi Pobl

50. Un o'r rhesymau dros benderfynu ystyried dichonoldeb integreiddio nifer o grantiau oedd y byddai'n rhaid dod o hyd i arbedion ariannol o £13 miliwn. Mae'r £13 miliwn hwn yn gyfystyr â thua 5 y cant o gyfanswm y gwariant blynyddol ar gyfer y grantiau a nodwyd yn y cynigion cyllidebol. Dywedodd y Dirprwy Ysgrifennydd Parhaol wrthym:

“As for the £13 million that was referenced in the budget, that was identified as efficiency savings, I think. They are efficiency savings that

²⁹ Cofnod y Trafodion, 22 Ionawr 2018, paragraff 101

³⁰ Cofnod y Trafodion, 22 Ionawr 2018, paragraff 140

we are currently exploring that are not based on a bottom-up analysis of what can be achieved. This is a budget challenge, which we will be working hard to meet. So, there aren't detailed cost calculations or analyses, as you've asked, for the basis of that figure. That is the figure that we will be working to achieve with our stakeholders and partners."³¹

51. Tynnodd y Dirprwy Ysgrifennydd Parhaol sylw at y ffaith nad oedd yn disgwyl i effeithlonrwydd godi yn sgîl llai o fiwrocratiaeth a gweinyddiaeth yn unig, gan ychwanegu bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Chymdeithas Trysoryddion Cymru i nodi arbedion eraill.

52. Roedd rhywfaint o gydnabyddiaeth bod potensial y gallai alinio strwythurau grant gynhyrchu effeithlonrwydd a gwella canlyniadau. Fodd bynnag, roedd y mwyafrif o safbwyntiau a glywsom yn mynegi pryderon bod potensial y gallai'r cynigion wanhau'r Rhaglen a bod risg o golli'n raddol yr arbenigedd cymorth sy'n gysylltiedig â thai, dadleoli cyllid tuag at grwpiau cleientiaid mwy "poblogaidd yn wleidyddol" a lleihau atebolrwydd ar gyfer y rhaglen.

53. Dywedodd Cartrefi Cymunedol Cymru wrthym:

"While CHC welcomes any approach which will allow for alignment of strategic priorities and reduction in bureaucracy, we remain concerned about what this move means for the long-term protection of housing-related support in Wales."³²

54. Mynegodd rhai tystion bryderon ynghylch yr effaith andwyol y gallai integreiddio cynigion grant ei chael ar ddarpariaeth Cefnogi Pobl. Eglurodd ymgynghorai unigol:

"The removal of SPPG/SP as a distinct budget line in 2019/20 is a real worry for the sector as a whole, not least that SPPG funding was agreed to be protected for the next two financial years in the recent WG budget 'deal'. SP works with a number of 'unpopular' client groups and there is a fear that services for children will take priority."³³

55. Nododd Cymorth Cymru bryderon tebyg yn amlinellu ei bod yn bosibl na fyddai cyllid Cefnogi Pobl yn cael ei ddiogelu am ddwy flynedd, er gwaethaf y sicrwydd a roddir yn y fargen gyllidebol, oherwydd y cynigion ar gyfer y grant integredig.

³¹ Cofnod y Trafodion, 22 Ionawr 2018, paragraff 93

³² **PAC(5)-29-17 P1**, 20 Tachwedd 2017

³³ PAC(5) SP07, Tystiolaeth ysgrifenedig

56. Wrth lunio cymariaethau â Lloegr ar effaith cael gwared ar gyllid wedi'i neilltuo, cyflwynodd Cymorth Cymru olwg dywyll yn tynnu sylw at y ffaith bod y Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn Lloegr wedi nodi toriadau cyn hyn o 45 y cant i rai cyllidebau Cefnogi Pobl.

57. Rydym yn ymwybodol bod rhai adroddiadau o 80 y cant o doriadau dros dair blynedd mewn rhai ardaloedd awdurdodau lleol yn Lloegr ar ôl dileu'r cyllid neilltuedig. Dywedwyd wrthym bod y sefyllfa bosibl hon yng Nghymru yn ... ofnadwy i'r grwpiau cleientiaid rydym ni'n eu cefnogi.³⁴

58. I gloi, amlinellodd Cymorth Cymru:

“It is likely that the resulting merged grant will sit outside of the housing directorate of Welsh Government and housing departments of local authorities, resulting in the loss of housing expertise at a time when homelessness is an increasing challenge and concern. The focus on this issue will be diluted and the funding for SP client groups (particularly those who are less ‘politically popular’) could be lost, resulting in increased homelessness, particularly for people with the most complex needs.”³⁵

59. Roedd tystiolaeth gan Gyngor Gwynedd yn adlewyrchu pryderon a oedd yn deillio o gynigion i gynnwys grant y Rhaglen Cefnogi Pobl o fewn y Grant Ymyrraeth Gynnar, Atal a Cefnogi:

“...there are concerns that the inclusion.....with predominantly non-housing related grant streams will dilute focus on homelessness and homelessness prevention which is a concern given recent increases in homelessness and rough sleeping.”³⁶

60. Yn yr un modd, roedd tystiolaeth bellach gan Is-Gadeirydd Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol Gwent yn codi cwestiynau pellach ynghylch eglurder y bwriad o ran gwarchod Grant y Rhaglen Cefnogi Pobl yn y dyfodol. Cawsom wybod:

“...our concerns...would be that the SP budget line disappears entirely... from 2019-20 to go into this new pot, whereas we were informed that the budget had been protected up until 2020. So, the implication of it disappearing, as such, makes us think that that it's possibly not

³⁴ Cofnod y Trafodion, 20 Tachwedd 2017, paragraffau 42

³⁵ **PAC(5)-29-17 P2, 20 Tachwedd 2017**

³⁶ PAC(5) SP04, Tystiolaeth ysgrifenedig

protected. And it would be much more difficult to dig down and see where that money is actually going if it's combined with four or five other grants. And the amount for all of those is reducing by £13 million, it would seem, in that year as well. So, if SP were to be protected in that year that means there's £13 million disappearing from Families First, Communities First, and the employability grant moneys."³⁷

61. Dywedodd Swyddogion Llywodraeth Cymru wrthym nad oeddent yn credu y bydd lleihad mewn atal digartrefedd ac mai'r nod oedd diogelu mwy o bobl. Clywsom y byddent yn glir iawn am y canlyniadau a'r grwpiau cleientiaid y disgwylir i awdurdodau lleol weithio gyda hwy.³⁸

62. Clywodd y Pwyllgor fod gweithgor wedi bod yn edrych ar ddatblygu canllawiau ar gyfer yr awdurdodau braenaru ac, fel rhan o hynny, mae wedi ceisio nodi cyfres o ganlyniadau y byddai'r grant unigol posibl yn gweithio ar ei gyflawni.

63. Mae'r canlyniadau a nodwyd gan y gweithgor yn cynnwys pobl ddigartref, pobl â chyflyrau iechyd meddwl ag anghenion sy'n ymwneud â chartrefedd, pobl ag anabledau dysgu ag anghenion yn ymwneud â chartrefedd, plant sydd â chefnidir o brofiadau plentyndod niweidiol lluosog neu sydd mewn perygl o brofi hynny, defnyddwyr camddefnyddio sylweddau, a phobl hŷn sy'n ymdrechu i gadw eu hannibyniaeth. Dywedwyd wrth y Pwyllgor mai dyma rai o'r canlyniadau sy'n gwbl ganolog i'r cynnig braenaru.³⁹

64. Nododd Swyddogion Llywodraeth Cymru hefyd y byddai grant cyfunol, pe bai'n cael ei roi ar waith, yn cael ei neilltuo fel grant y tu allan i'r Setliad Refeniw a fyddai'n cynnwys yr amrywiaeth o grantiau a nodir uchod yn canolbwyntio ar ymyrraeth gynnar, atal a chefnogi, a:

"Ministers have been clear that whilst there is an overall saving to be made there is no specific cut to SP. Ministers are also anxious that grant terms and conditions should remain sufficiently tight to ensure there is clarity over expectations on local authorities, supported with sufficiently robust accountability and monitoring."⁴⁰

³⁷ Cofnod y Trafodion, 27 Tachwedd 2018, paragraff 296

³⁸ Cofnod y Trafodion, 22 Ionawr 2018, paragraff 99

³⁹ Cofnod y Trafodion, 22 Ionawr 2018, paragraff 100

⁴⁰ **PAC(5)-02-18 P1, 22** Ionawr 2018

65. Wrth roi sylwadau ar y mater a yw grant y Rhaglen Cefnogi Pobl wedi'i ddiogelu ai peidio yn 2019-20 er gwaethaf peidio â chael llinell gyllideb benodol, dywedodd Cymorth Cymru:

“...it absolutely isn't protected. Unless you have that certainty that a budget line exists and is ring fenced and protected, if any questions remain about that, it is not protected....We're being told that no decisions have been made, but it is of huge concern to the sector.”

66. Yn ei adroddiad ar Gysgu ar y Stryd, mae'r Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau yn cymharu â'r sefyllfa yn Lloegr hefyd. Noda'r adroddiad bod dileu'r elfen neilltuo yn Lloegr wedi arwain at ostyngiadau sylweddol yng nghyllid y rhaglen.

67. Er nad yw'r profiad yn Lloegr yn un y gellir ei gymharu'n uniongyrchol, mae adroddiad y Pwyllgor yn nodi'r risg i Gymru. Ynghyd ag adroddiadau na ellid bod wedi cyflawni'r ymagwedd lwyddiannus bresennol tuag at atal digartrefedd heb y grant, a'r angen am gyflymu wrth ddatblygu'r rhaglen Cefnogi Pobl (fel yr amlinellwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru), canfu'r Pwyllgor nad yw'n gwneud llawer i liniaru pryderon y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau.

Goblygiadau ar gyfer Cynllunio a Darparu Rhanbarthol

68. Gan adeiladu ar y sylwebaeth yn adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol, clywodd y Pwyllgor nifer o bryderon ynghylch effeithiolrwydd a chynnydd cynllunio rhanbarthol a darparu gwasanaethau o dan y Rhaglen Cefnogi Pobl.

69. Argymhellodd adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol y dylai Llywodraeth Cymru nodi a chymhwyso gwersi a ddysgwyd o brofiad y Pwyllgorau Cydweithredol Rhanbarthol i lywio ei chynigion ar gyfer diwygio llywodraeth leol; ac adolygu a yw trefniadau'r Pwyllgorau hyn yn parhau i fod yn addas at y diben yng nghyd-destun trefniadau llywodraethu cydweithredol eraill, fel y byrddau gwasanaeth cyhoeddus statudol newydd.

70. Wrth ymateb i argymhellion yr Archwilydd Cyffredinol, dywedodd Llywodraeth Cymru:

“Once the final guidance...is published it will place Regional Collaborative Committees within the governance structure of Public Service Boards.”⁴¹

71. Roedd y dystiolaeth a glywsom yn codi cwestiynau ynghylch sut mae'r Pwyllgorau Cydweithredol Rhanbarthol yn cyd-fynd â Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a'u rôl wrth graffu ar weithgaredd o gwmpas y cynlluniau peilot o gyllido hyblyg, gan na fydd y rhain yn gweithredu ar draws y rhanbarth.

72. Archwiliodd y Pwyllgor y materion hyn ymhellach gyda thystion yn ystod dystiolaeth lafar a chlywodd gan y Cydgysylltydd Datblygu Rhanbarthol ar gyfer Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol Gwent:

“The concerns that I have around the new fund are that it's going to be a large amount of money going to local authorities on a locality basis, so I can't understand how our regional governance structures that are currently in place for Supporting People are going to be able to oversee these kinds of mega-grants that are going into local authorities from 2019.”⁴²

Ychwanegodd:

“...we also need some clarity delivered to RCCs, so that RCCs understand what their role and function is going forward after April, when most are going to have local authorities administering this larger grant. So, some clear messages about how that's going to happen on a regional basis. So, clear communication would be really helpful.”⁴³

73. Cafodd y lefel hon o ansicrwydd ei chyfleu gan CLILC hefyd, a gododd bryderon:

“it does feel that, as we move forward, in terms of funding flexibility, I'm not clear where the RCCs will sit with the other regional arrangements and national arrangements and how they'll all fit together.”⁴⁴

74. Wrth ymateb i gwestiynau ynghylch y craffu posibl y gallai Pwyllgorau Cydweithredol Rhanbarthol eu cael ynghylch grant integredig, dywedodd Cydgysylltydd Datblygu Rhanbarthol Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol Gwent:

⁴¹ **PAC(5)-23-17 P3A**, 25 Medi 2017

⁴² Cofnod y Trafodion, 27 Tachwedd 2017, paragraff 309

⁴³ Cofnod y Trafodion, 27 Tachwedd 2017, paragraff 353

⁴⁴ Cofnod y Trafodion, 27 Tachwedd 2017, paragraff 90

“I can’t see how an RCC could have governance over that. So, I think that the governance arrangements would need to change. As an RCC, we’re looking at the Supporting People budget and our role is to scrutinise the spend of that budget, and it’s an adult services budget; it’s not children’s services. So, that skills that would be required on that committee would need to be much broader, and I’m not quite sure how you would do that across children’s services and adult services.”⁴⁵

75. Mewn tystiolaeth gan Lywodraeth Cymru, ymddengys nad yw goblygiadau cyffredinol y cynigion grant integredig ar gyfer rôl y Pwyllgorau Cydweithredol Rhanbarthol wedi’u hystyried yn llawn.

76. Dywedodd un o swyddogion Llywodraeth Cymru wrthym:

“...part of the discussion that we need to have with the committees themselves. There are representatives from those committees who have been part of the discussions so far, on quite a general level. However, going forward, now that the conditions of the proposals are much clearer and that guidance is available for people to be able to discuss the details of the new scheme, I think it will be essential that we bring in or attract the members of the committees to the policy discussions that will be taking place throughout Wales.”⁴⁶

77. Fe wnaethom hefyd ofyn i Lywodraeth Cymru am ei barn ynghylch sut y byddai Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a Phwyllgorau Cydweithredol Rhanbarthol yn gweithio gyda’i gilydd yn ymarferol ac fe’n hysbyswyd:

“I think that is something that we’ll need to work out. Because the other relationship that I was talking about was the relationship between the local partnership boards on a regional level, which look at broader questions in terms of bringing together social care and healthcare, which, in terms of Supporting People, is a discussion that is similar to the discussion taking place about the regional partnership boards. And there are examples, as the report of the Wales Audit Office has shown, of some boards that are making those linkages, or connections, but we think that there is room for further collaboration across those boards.”⁴⁷

⁴⁵ Cofnod y Trafodion, 27 Tachwedd 2017, paragraff 316

⁴⁶ Cofnod y Trafodion, 22 Ionawr 2018, paragraff 157

⁴⁷ Cofnod y Trafodion, 22 Ionawr 2018, paragraff 159

Ein barn ni

78. Mae gennym bryderon difrifol am ddiffyg ymgysylltiad Llywodraeth Cymru â'r sector wrth ddatblygu ei chynigion ac mae'n annerbyniol inni bod rhai rhanddeiliaid wedi cael eu cadw yn y tywyllwch. Ymddengys bod yr ymagwedd a gymerwyd yn gyferbyniad llwyr â'r egwyddor cyd-gynhyrchu roedd Llywodraeth Cymru wedi ceisio ei rhoi wrth wraidd y Rhaglen Cefnogi Pobl dros y blynyddoedd blaenorol. Digwyddodd hyn mewn cyfnod pan oedd Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ar wahân ar ganllawiau ac amcanion strategol diwygiedig y Rhaglen Cefnogi Pobl ac ar "Fframwaith Canlyniadau" y Rhaglen a pharatoi ymateb i argymhellion yr Archwilydd Cyffredinol.

79. At hynny, credwn nad oedd "nodi bwriad" ynghylch cynigion y grant integredig yn gymesur â'r ffyrdd o weithio a ddisgwylir o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, waeth beth yw barn Llywodraeth Cymru y byddai ei chynigion yn hwyluso ailgynllunio gwasanaeth yn unol ag egwyddorion a nodau'r Ddeddf⁴⁸. Rydym yn nodi ac yn croesawu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ymgysylltu â rhanddeiliaid drwy gyfarfodydd y "Gweithgor Braenaru" sydd wedi'i sefydlu. Mae'n hollbwysig bod unrhyw newidiadau i'r rhaglenni grant presennol yn seiliedig ar dystiolaeth gyda'r nod o wella canlyniadau i bobl agored i niwed ac nid yn ffordd o arbed arian yn y tymor byr yn unig.

Argymhelliad 2. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn ymgysylltu'n agos â sefydliadau rhanddeiliaid allweddol wrth werthuso effaith prosiectau peilot ariannu hyblyg a phennu cwmpas ac amseriad unrhyw integreiddio pellach o ran grant, sy'n effeithio ar y Rhaglen Cefnogi Pobl y tu hwnt i 2018-19.

80. Mae gennym amheuan dybryd ynghylch yr amserlenni a nodir gan Lywodraeth Cymru ar hyn o bryd ar gyfer gwerthuso'r prosiectau peilot ariannu hyblyg os yw Llywodraeth Cymru'n parhau wedi ymrwymo i gyflwyno grant integredig yn 2019-20. Fodd bynnag, nodir bod y Dirprwy Ysgrifennydd Parhaol yn cydnabod na fydd, efallai, yn digwydd ar unwaith.

Argymhelliad 3. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn aros a meddwl am ei ffordd o werthuso dichonoldeb cynnig grant integredig. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn ystyried ymestyn amserlen y prosiectau peilot ariannu hyblyg i sicrhau y gellir cynnal archwiliad trylwyr a manwl o'u heffaith.

⁴⁸ Cynigion Cyllideb Llywodraeth Cymru, paragraffau 4.26-4.31.

Argymhelliad 4. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru, fel rhan o'i gwaith gwerthuso, yn nodi'n glir i ba raddau y mae awdurdodau lleol unigol wedi manteisio ar yr hyblygrwydd cyllido a ddarperir a sut mae hyn wedi cynnal gwell canlyniadau.

Argymhelliad 5. Rydym yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ar ganlyniadau'r gwaith o hwyluso monitro canlyniadau cymharol ar gyfer gwahanol grwpiau o gleientiaid. Hoffai'r Pwyllgor glywed hefyd am ganlyniadau gwaith gwerthuso ehangach Llywodraeth Cymru ac mae'n argymhell bod canfyddiadau'r gwerthusiad yn cael eu hadrodd inni yn ffurfiol.

81. Rydym yn nodi bod y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau yn cydnabod y caiff y grant cyfunol sengl arfaethedig ei neilltuo at ddiben darparu ymyrraeth gynnar, atal a chefnogi ac rydym yn cytuno â hynny. Rydym hefyd yn rhannu ei bryderon y bydd dileu elfen neilltuo o Grant y Rhaglen Cefnogi Pobl yn rhwystro'r gwaith o ddarparu gwasanaethau cymorth hanfodol sy'n gysylltiedig â thai, gan gynnwys y rhai ar gyfer pobl sy'n cysgu ar y stryd.

82. Rydym hefyd yn cytuno â chanfyddiadau'r Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau y bydd y grant cyfun yn ymestyn ar draws dau bortffolio Gweinidogol ac yn cytuno â'i gwestiynau ynghylch sut y bydd hyn yn effeithio ar benderfyniadau ariannu yn y dyfodol, yn ogystal â threfniadau craffu ac atebolrwydd.

83. Rydym yn pryderu na all rhesymeg ddatganedig Llywodraeth Cymru am integreiddio grantiau presennol ystyried yn ddigonol y ffordd y mae'r rhaglen yn gweithio gyda'r rhai sy'n ddigartref neu sydd mewn perygl o fod yn ddigartref. Hoffem weld monitro a gwerthuso pellach o'r cynlluniau peilot, ynghyd â mwy o ymgysylltiad â rhanddeiliaid, i brofi'r rhesymeg hon.

Argymhelliad 6. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn ailystyried y grantiau y mae'n bwriadu eu cynnwys mewn ffrwd ariannu integredig, ac ystyried yn arbennig, fel rhan o ddatblygiad yn y dyfodol, rinweddau cymharol integreiddio Cefnogi Pobl â grantiau tai a digartrefedd yn unig.

84. Mae'r sefyllfa ynghylch a yw arian y Rhaglen Cefnogi Pobl wedi'i ddiogelu yn parhau'n aneglur, gyda Llywodraeth Cymru yn anfon negeseuon cymysg. Mae angen i Lywodraeth Cymru fod yn hollol glir o ran ei bwriad.

85. Mae gan y Pwyllgor amheuan, hefyd, bod Llywodraeth Cymru yn chwilio am Grant Integredig newydd i sicrhau arbedion o £13 miliwn nad ydynt, yn ôl Llywodraeth Cymru, yn seiliedig ar ddadansoddiad o'r bon i'r brig o'r hyn y gellir ei gyflawni. Gall hyn olygu eto mai'r unig ffordd o gyflawni'r arbedion ariannol sydd

eu hangen yw drwy effeithio ar ansawdd a lefel y gwasanaethau a ddarperir gan y grantiau sy'n cael eu hintegreiddio, gan gynnwys y Rhaglen Cefnogi Pobl.

Argymhelliad 7. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn mesur yn glir faint o arbedion ariannol y gellir eu cronni drwy leihau costau gweinyddol a darparu gwasanaethau'n fwy effeithlon drwy ei chynigion grant integredig. Dylai'r gwerthusiad hwn gynnwys sicrwydd bod yr arbedion effeithlonrwydd y gellir eu cyflawni yn yr ardaloedd braenaru yn rhai y gellir eu cyflawni'n rhwydd mewn mannau eraill.

86. Nodir hefyd bod pryderon o hyd ynghylch effeithiolrwydd ac effaith Pwyllgorau Cydweithredol Rhanbarthol, gyda'r cynnydd yn amrywio o ran datblygu prosiectau a gwasanaethau rhanbarthol. Mae'r cynigion ar gyfer y grant integredig yn codi cwestiynau pellach ynghylch rôl a swyddogaeth y pwyllgorau hynny ac mae unrhyw ansicrwydd yn hyn o beth yn tanseilio eu heffeithiolrwydd.

Argymhelliad 8. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn egluro rôl y Pwyllgorau Cydweithredol Rhanbarthol yng nghyd-destun y prosiectau peilot ariannu hyblyg ac os bydd unrhyw grant integredig yn cael ei gyflwyno yn y dyfodol.

Dosbarthu arian a chynllunio ariannol

Pwysau ariannu ac ansicrwydd

87. Mae adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol yn cyfeirio at sut mae hysbysiadau cyllido blynyddol wedi creu hinsawdd o ansicrwydd, gan atal cynllunio strategol hirdymor, mygu arloesedd a'i gwneud yn anodd cadw staff profiadol. Er bod ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol yn cydnabod ei nod o ddarparu arwyddion tymor hwy o ran cyllidebau lle bynnag y bo hynny'n bosibl, nododd y cyfyngiadau sy'n deillio o'r ansicrwydd ynghylch goblygiadau penderfyniadau ariannu Llywodraeth y DU.

88. Roedd yr anawsterau sy'n deillio o ansicrwydd ariannu yn cael eu nodi mewn tystiolaeth ysgrifenedig gan Gyngor Ynys Môn:

“Funding uncertainty has also restricted development of new services, for fear of funding being unavailable for newly awarded contracts, particularly within fixed support services.”⁴⁹

89. Cyfeiriodd Cymorth Cymru at faterion yn ymwneud â darparwyr gwasanaeth yn peidio â gwneud cais am gontractau oherwydd ansicrwydd, gan esbonio:

“Another consequence of funding cuts is that some providers have taken the decision not to bid for contracts that they view as being too low value for the services that need to be delivered. The primary concern of these providers has been the safety and quality of the services they deliver for vulnerable people with complex needs.”⁵⁰

90. Mewn tystiolaeth ysgrifenedig, dywedodd Cornerstone:

“Some providers are completely withdrawing from providing Support People-funded services, due to the risk to business models.”⁵¹

91. Yn yr un modd, esboniodd Cyngor Sir Ddinbych bod pwysau ar y gyllideb ac ansicrwydd ynghylch ariannu wedi effeithio ar y gwaith o gynllunio gwasanaethau a darparu gwasanaethau drwy:

⁴⁹ PAC(5) SPO3, Tystiolaeth ysgrifenedig

⁵⁰ PAC(5) SP18, Tystiolaeth ysgrifenedig

⁵¹ PAC(5) SP01, Tystiolaeth ysgrifenedig

“...an impact on staff retention and recruitment, as well as on the market overall – e.g. a lack of interest when tendering contracts. There’s limited incentive for Providers to take the risk in developing supported housing in particular.”⁵²

92. Er gwaethaf y sylw amlwg a roddwyd i hyn gan nifer o dystion yn y dystiolaeth a gyflwynwyd i’r ymchwiliad, nid oedd Llywodraeth Cymru yn ymwybodol bod hyn yn digwydd. Dywedodd y Dirprwy Ysgrifennydd Parhaol wrthym:

“I hadn’t picked up that providers were hesitating in providing for services. That’s not something that I’ve heard directly myself.”⁵³

93. Cadarnhaodd Llywodraeth Cymru y bydd yn ymchwilio ymhellach i’r mater hwn gyda Swyddogion Llywodraeth Cymru yn datgan:

“I think that it’s something we’ll certainly pick up with local authorities, and Cymorth and other providers, to take a closer look at that.”⁵⁴

94. Cafwyd pryderon hefyd ynghylch effaith gostyngiadau’r gyllideb ar ansawdd a chynaliadwyedd gwasanaethau Cefnogi Pobl. Canfu adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol mai un dull a ddefnyddiwyd gan awdurdodau lleol i ymdrin â gostyngiadau cyllidebol oedd newid o gymorth sefydlog, sydd ar y cyfan yn ddrytach, i gymorth rhatach y gellir ei ddefnyddio fel y bo’r angen.

“Since 2014-15, there has been a small but noticeable change in the overall proportion of Programme funds spent on fixed and floating support. The Welsh Government’s view is that higher levels of floating support are an indicator of local authorities intervening earlier to address issues before they reach crisis point and individuals require fixed support services. This approach is in line with the preventative agenda set out within the Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015 and could be more cost-effective in the longer term. However, respondents to a 2016 Community Housing Cymru survey expressed the view that local authorities are funding fewer intensive services to achieve cost savings and that this would have a detrimental impact on service users.”

⁵² PAC(5) SP 08, Tystiolaeth ysgrifenedig

⁵³ Cofnod y Trafodion, 22 Ionawr 2018, paragraff 111

⁵⁴ Cofnod y Trafodion, 22 Ionawr 2018, paragraff 112

95. Clywodd y Pwyllgor amryw o resymau i esbonio cynnydd yn y lefelau cyllid a neilltuwyd i gymorth amrywiol o'i gymharu â chymorth sefydlog. Awgrymodd rhai tystion ei bod o ganlyniad i gyfarwyddeb gan Lywodraeth Cymru a oedd o'r farn bod cymorth amrywiol yn fwy ataliol na chymorth sefydlog ac er mwyn sicrhau y gellid darparu gwasanaethau Cefnogi Pobl i bobl beth bynnag fo'u statws o ran preswyl.⁵⁵

96. Fodd bynnag, er ei bod yn iawn y dylai pobl allu derbyn cymorth waeth beth fo'u statws o ran preswyl, tynnodd tystion eraill sylw at y ffaith fod rheswm da, weithiau, dros ddarparu cymorth mewn llety sefydlog arbenigol. Awgrymodd tystiolaeth fod ansicrwydd ariannu yn ei gwneud yn fwyfwy anodd darparu'r math hwn o gymorth, gan arwain at fwy o ddibyniaeth ar gymorth amrywiol anarbenigol. Awgrymwyd hefyd bod y defnydd o gymorth amrywiol yn hytrach na sefydlog weithiau'n cael effaith andwyol ac nad oedd bob amser o reidrwydd yn ateb mwy ataliol.

97. Er enghraifft, esboniodd Cymorth Cymru:

“As new services are developed, commissioners are aware that per person, the cost of shared or fixed schemes is much higher than for floating support. However, the move to the cheaper floating service will mean much of the support is lost. There is no comparison between the support that can be offered to a 16 yr old single mother in a residential mother and baby scheme and having a support worker ‘pop in’ once a week for an hour. You get what you pay for. A diluted service will cost less- but may well achieve less and so becomes money wasted.”⁵⁶

Y fformiwla ariannu

98. Ers dechrau'r Rhaglen yn 2003, nid yw dosbarthiad cyllid i awdurdodau lleol wedi'i bod yn seiliedig ar yr angen mwyaf. Er bod Llywodraeth Cymru wedi ceisio mynd i'r afael â'r broblem hon drwy weithredu fformiwla ariannu newydd yn 2012-13, dewisodd ohirio'r fformiwla wrth dorri cyllideb y Rhaglen ar gyfer 2014-15 a 2015-16 hefyd.

99. Parhaodd Llywodraeth Cymru ag elfen o ailddosbarthu cyllid ond pe bai'r fformiwla wedi parhau i gael ei weithredu, byddai rhai awdurdodau lleol bellach yn derbyn llawer mwy a rhai yn cael llawer llai na'u dyraniadau cyfredol.

⁵⁵ PAC(5)SP09, Tystiolaeth ysgrifenedig

⁵⁶ PAC(5) SP18 Tystiolaeth ysgrifenedig.

100. Mae Bwrdd Cyngori Cenedlaethol Cefnogi Pobl (SPNAB) wedi cydnabod yr angen am fformiwla newydd i helpu aildosbarthu cronfeydd y rhaglen i'r ardaloedd daearyddol mwyaf anghenus. Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn ystyried gweithredu fformiwla ariannu diwygiedig mewn ymateb i argymhelliad gan y Bwrdd Cyngori Cenedlaethol ond nid yw'r amserlen ar gyfer hyn wedi'i chadarnhau a bydd angen i unrhyw fformiwla newydd gymryd i ystyriaeth amcanion diwygiedig y Rhaglen a dylid ymgynghori arnynt.

101. Mae adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol yn nodi bod y Bwrdd Cyngori Cenedlaethol wedi bod yn annog Llywodraeth Cymru i weithredu'r fformiwla newydd ar gyfer 2018-19 ond bod hyn yn debygol o fod yn amserlen rhy uchelgeisiol, gan nad oedd Llywodraeth Cymru wedi gwneud unrhyw waith eto i ganfod cydrannau data posibl i'w cynnwys mewn fformiwla ddiwygiedig. Roedd cyrraedd cytundeb ar y fformiwla a gyflwynwyd yn 2012-13 yn heriol a chymerodd 12 mis o waith cyn ei weithredu.

102. Roedd ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol yn awgrymu amserlen estynedig, ac na fyddai unrhyw fformiwla newydd yn cael ei roi ar waith tan fis Ebrill 2020.

Amrywiadau lleol mewn cymorth ariannol i grwpiau cleientiaid

103. Roedd adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol yn tynnu sylw at amrywiad yn lefel y gefnogaeth ar draws awdurdodau lleol ar gyfer yr un grwpiau:

“...gwaith a gyflawnwyd yng Nghwent ac yng Ngogledd Cymru fod yr oriau o gymorth i bobl ag anableddau dysgu a ariennir gan awdurdodau lleol drwy'r Rhaglen yn amrywio'n helaeth. Yn rhan o raglen raddol i gwblhau asesiadau unigol o gymroth cysylltiedig â thai, penderfynodd Cyngor Sir Casnewydd yn 2015-16 y byddai'n cyfyngu ar gymorth i bobl ag anableddau dysgu neu broblemau iechyd meddwl parhaus a ariennir drwy'r Rhaglen Cefnogi Pobl i wyth awr yr wythnos.”⁵⁷

104. Soniodd yr adroddiad hefyd:

⁵⁷ **Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, Rhaglen Cefnogi Pobl Llywodraeth Cymru, Awst 2017**, paragraff 3.37

“Ym marn Llywodraeth Cymru, mae rhai awdurdodau lleol yn defnyddio cyllid Cefnogi Pobl i gynnal gwasanaethau anghymwys i bobl ag anableddau dysgu.”⁵⁸

A:

“Gan amlaf, byddai'r adolygiadau hyn yn canfod bod peth o'r cymorth nad oedd yn gysylltiedig â thai, ond yn hytrach yn gymorth 'gofal', nad yw'n gymwys o dan y Rhaglen. Nid oes gan Lywodraeth Cymru unrhyw wybodaeth ynghylch a yw ffynonellau cyllid eraill yn llenwi'r bwlch a adawir ar ôl tynnu cyllid Cefnogi Pobl yn ôl. Nid ydym wedi mynd ar drywydd y mater hwn gyda'r holl awdurdodau lleol. Fodd bynnag, gwyddom fod un awdurdod (Blaenau Gwent) wedi ailfodelu ei wasanaethau anableddau dysgu er mwyn cael gwared â'r elfennau gofal o'r Rhaglen Cefnogi Pobl, ac yn lle hynny eu hariannu o'i gyllideb gofal cymdeithasol oedolion.”⁵⁹

105. Mewn tystiolaeth i'r Pwyllgor, roedd y rhesymau a roddwyd am amrywiad eang mewn cymorth ariannol i grwpiau cleientiaid ar draws awdurdodau lleol yn niferus, ac yn amrywio o ddemograffeg amrywiol, lefelau gwahanol o soffistigeiddrwydd o'r dadansoddiad o anghenion, blaenoriaethau gwleidyddol ac ychydig o dystiolaeth o hyd o gymynroddion hanesyddol.

106. Nid oedd adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol yn gallu ffurfio barn bendant ynghylch a yw'r ddarpariaeth yn amrywio i'r un graddau ar draws grwpiau cleientiaid eraill. Fodd bynnag, nododd fod y data sydd ar gael yn awgrymu rhywfaint o amrywiad:

“Er enghraifft, nodwyd bod 16 o 22 o awdurdodau lleol yn darparu gwasanaethau Cefnogi Pobl ar gyfer y grŵp cleientiaid 'teuluoedd sydd angen cymorth' yn 2016-17. Roedd pedwar awdurdod lleol ar ddeg yn darparu cymorth i bobl ag anableddau corfforol, neu synhwyraidd drwy'r Rhaglen. Ar y llaw arall, dim ond tri awdurdod lleol a ddarparai gymorth drwy'r Rhaglen i bobl ag anhwylderau datblygu fel awtistiaeth...”⁶⁰

⁵⁸ **Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, Rhaglen Cefnogi Pobl Llywodraeth Cymru, Awst 2017**, paragraff 1.8

⁵⁹ **Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, Rhaglen Cefnogi Pobl Llywodraeth Cymru, Awst 2017**, paragraff 2.53

⁶⁰ **Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, Rhaglen Cefnogi Pobl Llywodraeth Cymru, Awst 2017**, paragraff 3.38

107. Mewn ymateb i argymhellion yr Archwilydd Cyffredinol, roedd Llywodraeth Cymru wedi nodi y byddai'n gweithio gyda Phwyllgorau Cydweithredol Rhanbarthol i adolygu gwasanaethau i bobl ag anabledau dysgu erbyn diwedd 2018-19, gyda'r bwriad o weithredu unrhyw newidiadau erbyn mis Mawrth 2022. Yn fwy cyffredinol, dywedodd Llywodraeth Cymru y byddai'n gweithio gyda'r pwyllgorau i feithrin dealltwriaeth o gostau gwasanaethau a sut mae'r rhain yn amrywio ar draws awdurdodau lleol.

Ein barn ni

108. Rydym yn nodi'r pryderon a godwyd gan dystion bod rhai darparwyr yn tynnu'n ôl rhag cynnig am wasanaethau oherwydd yr ansicrwydd ariannu ac yn cefnogi argymhellion yr Archwilydd Cyffredinol ynghylch ailgyflwyno dyraniadau ariannu tair blynedd cyn gynted â phosibl a symud i gynlluniau gwariant tair blynedd. Credwn fod yr argymhellion hyn yn parhau'n berthnasol hyd yn oed os yw Llywodraeth Cymru yn integreiddio cyllid y Rhaglen Cefnogi Pobl â rhaglenni grant eraill.

109. Rydym yn pryderu ei bod yn bosibl y gallai darparwyr fod yn tynnu'n ôl o gynnig am wasanaethau oherwydd yr ansicrwydd ychwanegol a achosir gan y cynigion grant integredig.

Argymhelliad 9. Argymhelliad 9: Ynghyd â'i gwerthusiad o'r prosiectau peilot ariannu hyblyg, rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn cynnal adolygiad brys i ganfod a oes comisiynwyr yn cael trafferth denu ceisiadau am wasanaethau Cefnogi Pobl oherwydd ansicrwydd ariannu.

110. Mae'r cynigion ar gyfer grant integredig yn codi cwestiynau am gynlluniau ar gyfer y fformiwla ariannu Cefnogi Pobl. Mae wedi bod yn anodd symud i sefyllfa o ddyrannu cyllid y Rhaglen Cefnogi Pobl ar sail angen. Ymddengys y byddai unrhyw symud tuag at grant integredig gyda mwy o hyblygrwydd ariannu yn creu mwy o gymhlethdod yn hyn o beth o ystyried yr amrediad ehangach o ddibenion y gellid defnyddio'r arian grant ar eu cyfer.

Argymhelliad 10. Argymhelliad 10: Rydym yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor ynghylch ei hymateb i argymhelliad yr Archwilydd Cyffredinol ar y fformiwla ariannu i egluro ei bwriad. Dylai'r diweddariad hwn gynnwys manylion ynghylch sut mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu dyrannu'r gyllideb gyffredinol i awdurdodau lleol ar gyfer unrhyw grant integredig gan sicrhau hefyd ei bod yn seiliedig ar anghenion.

111. Rydym yn nodi ymateb cadarnhaol Llywodraeth Cymru i argymhellion yr Archwilydd Cyffredinol ynghylch ystyried amrywiadau o ran darparu

gwasanaethau Cefnogi Pobl ar gyfer pobl ag anableddau dysgu a meincnodi costau ehangach y gwasanaeth. Fodd bynnag, nid yw'n glir i ni a yw Llywodraeth Cymru yn parhau i fod yn ymrwymedig i'r camau gweithredu hyn o ystyried y cynigion grant integredig.

Argymhelliad 11. Argymhelliad 11: Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn cadarnhau ei hymrwymiad i'r camau a nododd eisoes mewn ymateb i argymhellion yr Archwilydd Cyffredinol ynghylch gwasanaethau anableddau dysgu a meincnodi costau gwasanaethau.

Argymhelliad 12. Argymhelliad 12: Rydym hefyd yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn edrych yn yr un modd ar y mater o amrywiad rhwng awdurdodau lleol yn y ddarpariaeth Cefnogi Pobl ar gyfer grwpiau penodol eraill, gan gynnwys unrhyw wahaniaethau amlwg yn y math o gymorth, h.y. sefydlog neu amrywiol.

Monitro a Gwerthuso

112. Fe soniodd adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol fod cynnydd wrth ddatblygu dull o werthuso wedi bod yn araf ac nad oes gan Lywodraeth Cymru ddigon o ddealltwriaeth eto o effaith y Rhaglen, tua 14 blynedd ar ôl ei lansio. Mae diffyg hyder hefyd yn y data a gasglwyd. Canfu'r adroddiad:

“Dywedodd llawer o'r rhai a oedd yn ymwneud â chyflenwi'r Rhaglen ei bod hi'n cymryd amser hir i gasglu'r data deilliannau. Ar ben hynny, nid oedd ganddynt ymddiriedaeth na hyder yng nghywirdeb y data. Mewn ymateb i hyn, mae Llywodraeth Cymru wedi pwysleisio ei barn y dylai awdurdodau lleol nad oes ganddynt hyder yn y data gydweithio'n agosach â darparwyr cymorth i ymdrin â'r problemau dan sylw’.⁶¹

113. Mewn tystiolaeth lafar, esboniodd Cymorth Cymru:

“I think that the outcomes work is far from perfect, but it has been making progress over the years. Certainly, we've seen an increase in the outcomes collected over the space of two or three years—an increase of 65 per cent in outcomes collected. So, the sector is engaging more with it; they're collecting more data. There's obviously been some criticism from some people in the sector and in the audit office report around how robust those are and how they're interpreted by support workers filling out those forms. We often hear complaints about the bureaucracy and how much time people spend filling that out, but the sector's really keen to demonstrate impact because they know from working with people every day the life-changing impacts that it has, but also the savings to health, criminal justice, social care et cetera. So, they're really keen to collect outcomes but want to do so in a less bureaucratic way, and to make sure that when they are collecting outcomes they are as robust as possible to show the true impact.”⁶²

114. Yn yr un modd, dywedodd Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol Gwent wrthym:

“[There is a]General feeling that WG SPPG Outcomes have been difficult to use to analyse decision making due to limited faith in their

⁶¹ **Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, Rhaglen Cefnogi Pobl Llywodraeth Cymru, Awst 2017**, paragraff 2.24

⁶² Cofnod y Trafodion, 20 Tachwedd 2017, paragraffau 47

meaningfulness and as such their usefulness for this. They need to be better linked with e.g. Homelessness definitions under legislation, rather than being 'standalone' as currently."⁶³

115. Cefnogwyd y farn hon mewn tystiolaeth ysgrifenedig gan Llamau a ddywedodd:

"In addition, whilst the monitoring process attempts to measure progress, there is no base line to give meaningful data on the effectiveness of support interventions. This has resulted in limited faith in their meaningfulness and a hesitancy to use the data to inform decisions. Furthermore, there is little link between the measurement of other areas of work and Supporting People, particularly the Violence Against Women, Domestic Abuse and Sexual Violence (Wales) Act, Wellbeing of Future Generations (Wales) Act and the Housing (Wales) Act. At the moment, the outcomes monitoring for the Supporting People Programme does not allow for any measurement of its contribution to these areas of work."⁶⁴

116. Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn bwriadu adolygu'r Fframwaith Canlyniadau. Fodd bynnag, roedd amheuaeth hefyd a fyddai'r cynigion ar gyfer fframwaith canlyniadau diwygiedig yn mynd i'r afael â chyfyngiadau'r fframwaith canlyniadau cyfredol yn ddigonol. Er mwyn sicrhau bod unrhyw fframwaith canlyniadau diwygiedig yn llwyddiannus ac yn cynhyrchu data cadarn, roedd galw clir am hyfforddiant a chanllawiau cynhwysfawr i sicrhau ei fod yn cael ei ddefnyddio'n gyson ledled Cymru. Awgrymodd dau ymatebydd hefyd y dylai'r Swyddfa Ystadegau Gwladol fod yn rhan o'r gwaith o'i ddatblygu.⁶⁵

117. Roedd tystiolaeth gan Bwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol Bae'r Gorllewin yn nodi bod cyfle, gyda dyfodiad Canlyniadau Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles, i sefydlu un gyfres o ganlyniadau cenedlaethol a ddefnyddir yn gyson, gan leihau biwrocratiaeth a phrosesau gweinyddol.⁶⁶

118. Yn ei hymateb i argymhelliad yr Archwilydd Cyffredinol i sicrhau bod unrhyw drefniadau fframwaith newydd yn cael eu deall yn glir gan ddarparwyr ac wedi'u hymgorffori fel rhan o drefniadau cytundebol, dywedodd Llywodraeth Cymru y byddai'n:

⁶³ PAC(5) SP09 – Tystiolaeth ysgrifenedig.

⁶⁴ PAC(5) SP10 – Tystiolaeth ysgrifenedig.

⁶⁵ PAC(5) SP10 – Tystiolaeth ysgrifenedig.

⁶⁶ PAC(5) SP09 – Tystiolaeth ysgrifenedig.

"... ymgysylltu â'r Rhwydwaith Gwybodaeth Cefnogi Pobl (SPIN) a Cymorth Cymru i gyflwyno a pharatoi comisiynwyr a darparwyr ar gyfer newidiadau yn y dyfodol i gasglu data. In addition, we will update Welsh Government grant terms and conditions to reflect these changes to Local Authorities. We will work with local authorities so changes to data collection are reflected in their own commissioning arrangements with service providers. Welsh Government will test this has been embedded via the local authority review process."⁶⁷

119. Fodd bynnag, mewn tystiolaeth lafar, dywedodd un o Swyddogion Llywodraeth Cymru:

"At the moment...we have paused on implementing the new framework that we consulted on in the summer pending decisions around any integrated grant."⁶⁸

120. Clywsom bryderon hefyd am effaith y cynigion grant integredig ar yr astudiaeth gyswllt data pedair blynedd sy'n edrych ar effaith y Rhaglen Cefnogi Pobl ar y galw am wasanaethau'r GIG. Wrth ymateb i'r pryderon hyn, dywedodd un o Swyddog Llywodraeth Cymru:

"Because we are not proposing to revolutionise our approach to Supporting People within the proposed early intervention grant, we are hopeful that we won't cut across our ability to measure. But the sector is right to say that there'll be issues arising as a result of any change. But hopefully we will still generate good enough data, because that's a tricky exercise and we would be frustrated to say the least if we weren't able to build on the work that's been done to date."⁶⁹

121. Mae'r Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau wedi tynnu sylw at wendidau tebyg mewn rheoli perfformiad a gwerthuso mewn adroddiad blaenorol ar y rhaglen Cymunedau yn Gyntaf. Mae adroddiadau eraill a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru ar raglenni Dechrau'n Deg a Theuluoedd yn Gyntaf wedi nodi materion tebyg, gan ddod i'r casgliad nad oes digon o wybodaeth hyd yma i asesu effeithiau'r rhaglenni hyn yn llawn, er eu bod yn gweithredu ers nifer o flynyddoedd.

⁶⁷ Ymateb Llywodraeth Cymru i Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, 20 Medi 2017

⁶⁸ Cofnod y Trafodion, 22 Ionawr 2018, paragraff 171

⁶⁹ Cofnod y Trafodion, 22 Ionawr 2018, paragraff 208

Ein Barn ni

122. Mae'n siomedig nad oes gan Lywodraeth Cymru, ar ôl 14 blynedd, ddigon o ddealltwriaeth o effaith y Rhaglen Cefnogi Pobl a bod gwendidau tebyg o ran monitro a gwerthuso wedi'u canfod mewn meysydd eraill o ddarparu polisi.

123. Mae'n dal yn aneglur beth yn union y mae'r cynigion ar gyfer y grant integredig newydd yn ei olygu, bellach, i'r newidiadau i'r fframwaith canlyniadau y bu Llywodraeth Cymru yn ymgynghori arnynt, ac ar gyfer gwaith gwerthuso arall.

Argymhelliad 13. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn darparu arweiniad a hyfforddiant cynhwysfawr i sicrhau bod unrhyw fframwaith canlyniadau diwygiedig, ar gyfer y Rhaglen Cefnogi Pobl, neu unrhyw grant integredig newydd, wedi'i ddeall yn iawn a'i ddefnyddio'n gyson ledled Cymru o'r dechrau.

Atodiad – Tystion

Rhoddodd y tystion canlynol dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor ar y dyddiadau a nodir isod. Gellir gweld trawsgriffiau o'r holl sesiynau tystiolaeth lafar yn llawn yn:

<http://cofnod.cynulliad.cymru/Search/?type=2&meetingtype=441>

Dyddiad	Enw a sefydliad
20 Tachwedd 2017	Stuart Ropke – Cartrefi Cymunedol Cymru Enid Roberts – Cartrefi Cymunedol Gwynedd Katie Dalton – Cymorth Cymru Rhian Stone – Grŵp POBL a Chadeirydd Cymorth Cymru
27 Tachwedd 2017	Naomi Alleyne – Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru Elke Winton – Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen Nigel Stannard – Cyngor Dinas Casnewydd Sam Lewis – Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol Gwent Angela Lee – Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol Gwent
11 Rhagfyr 2017	Y Cynghorydd Mark Child – Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol Bae'r Gorllewin Rachel Evans – Awdurdod Cydgysylltu Dinas a Sir Abertawe
22 Ionawr 2018	Tracey Burke – Llywodraeth Cymru Jo-Anne Daniels – Llywodraeth Cymru John Howells – Llywodraeth Cymru Emma Williams – Llywodraeth Cymru